# Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-33-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 5 Rhagfyr 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Rosemary Butler, Janice Gregory

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-32-2006

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i adrodd arnynt symudodd y Cadeirydd i drafod deddfwriaeth ar unwaith.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1409 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1411 – Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006

LC1412 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1413 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhau Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006

LC1414 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1415 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1416 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

LC1417 – Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1418 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006

## Camau i'w cymryd

Nid oedd unrhyw bwyntiau gweithredu.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Ionawr 2007.